

Rhestr wirio datblygu a rheoli contractau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r pwyntiau allweddol y bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu hystyried wrth gaffael ac wrth ddatblygu a rheoli contractau.

Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol, bydd dilyn y pwyntiau allweddol hyn yn eich helpu i sicrhau eich bod yn cadw trefn ar y broses a bod y cwmni sy'n cael ei gontractio yn cyflawni gwaith ar amser ac yn unol â'r safon ofynnol, ac nad yw'n gwneud unrhyw benderfyniadau nac amrywiadau heb i chi ddeall ac awdurdodi hynny'n llawn.

Pan fyddwch yn defnyddio contractwr i brosesu data personol, mae gofynion arbennig sy'n berthnasol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Caiff rhain eu hamlygu isod, ond dylech sicrhau eich bod yn siarad gyda Swyddog Diogelu Data/Gwybodaeth eich cyngor.

Caffael

- Gofynnwch i'ch awdurdod lleol am gyngor ar weithdrefnau caffael y dylid eu dilyn.
- Gofynnwch am o leiaf dri dyfynbris. Neu, a oes rhestr sefydlog o gontractwyr wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol? Os felly, aseswch a oes contractwr a fyddai'n gallu bodloni gofynion y fanyleb (gweler isod).
- Mae rheolau arbennig yn berthnasol pan fyddwch yn defnyddio 'proseswr' ar eich rhan i brosesu data personol. Er enghraifft os ydych yn anfon data'r gofrestr at contractiwr i argraffu ffurflenni neu i ddarparu cyfleuster ymateb yn awtomatig yn ystod y canfas, rydych yn defnyddio 'proseswr'. Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR) yn gofyn eich bod chi on yn penodi proseswr all roi '**sicrwydd digonol**' y bydd gofynion GDPR yn cael eu bodloni. Dylech felly sicrhau bod ystyriaethau diogelu data yn rhan hanfodol o'ch proses gaffael. Mae mwy o wybodaeth ar effaith deddfwriaeth diogelu data wrth fynd i gontractau gyda proseswyr data ar gael ar ddiwedd yr adnodd yma.

Y fanyleb

Mae'n rhaid cael manyleb fanwl o'r gofynion. Fel gofyniad sylfaenol, rhaid i'r fanyleb:

- Gynnwys disgrifiad manwl o'r hyn rydych am i'r cyflenwr ei ddarparu.
- Rhoi cyfarwyddiadau clir ar gyfer rhwymedigaethau a gofynion statudol angenrheidiol y gwaith neu'r gwasanaethau penodol a fydd yn cael eu cyflawni, fel:
 - cyfarwyddiadau argraffu ac unrhyw ofynion o ran cynnwys a chynllun
 - terfynau amser statudol
- Cynnwys gwybodaeth berthnasol am unrhyw ddata a fydd yn cael eu darparu, gan gynnwys prosesau anfon a derbyn, a rheoli data yn ddiogel.
- Cael ei rhoi i bawb sy'n cael gwahoddiad i dendro am y gwaith, a rhaid i'r contractwr llwyddiannus allu bodloni holl ofynion y fanyleb.
- Dweud yn glir y dylai'r cyflenwr llwyddiannus gyflawni gwaith neu ddarparu gwasanaethau yn unol â'r fanyleb, ac na ddylid gwneud unrhyw newidiadau wrth gyflawni'r contract heb ganiatâd ymlaen llaw.

Eich penderfyniad

Wrth wneud eich penderfyniad, rhaid i chi ystyried y canlynol:

- A yw'r cyflenwr wedi rhoi sylw i'r holl bwyntiau yn eich manyleb?
- Ydych chi'n fodlon y bydd y cyflenwr yn gallu bodloni gofynion y fanyleb?
- Ai'r cyflenwr hwn sy'n cynnig y gwerth gorau am arian?
- Os ydynt yn prosesu data personol ar eich rhan: allant ddarparu '**sicrwydd digonol**'

Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cadw cofnod o'ch proses gwneud penderfyniadau.

Rheoli contractau

Mae gennych chi a'ch cyflenwr rwymedigaethau, a rhaid adlewyrchu'r rhain yn y contract (gweler isod am fwy o fanylion gofynion ychwanegol penodol lle bo'r contractwr yn prosesu data personol ar eich rhan):

Eich rhwymedigaethau chi

- Darparu manyleb eglur o ofynion, sy'n cynnwys ansawdd, nifer, amserlenni cyflawni ac ati.
- Dewis rheolwr contract i fod yn brif bwynt cyswllt drwy gydol y broses.
- Gofyn am eirdaon ffurfiol ar ôl dewis cyflenwr.
- Cymryd camau gwirio priodol ynghylch datganiadau'r cyflenwr mewn perthynas â materion megis diogeledd, iechyd a diogelwch, a gweithdrefnau ar gyfer trafod data yn ddiogel.
- Ymrwymo i gyflenwi data cywir yn brydlon ac mewn fformat y cytunwyd arno, gan sefydlu gweithdrefn y cytunwyd arni ar gyfer prawf ddarllen.
- Cytuno â'r cyflenwr ar broses i amrywio'r contract, e.e. pe bai unrhyw newidiadau munud olaf, fel angen nifer mwy neu newidiadau i amserlenni cyflawni.

- Cael datganiad gan y cyflenwr yn cadarnhau a fydd yn defnyddio isgcontractwyr, ac os felly, gofyn am sicrwydd y bydd yr is-gontractwr yn gallu cyflawni'r gwaith a bod prosesu sicrhau ansawdd priodol ar waith.
- Cytuno ar broses i gywiro unrhyw wallau.

Rhwymedigaethau'r cyflenwr

- Darparu ymateb eglur i'r fanyleb, gyda rhestr brisiau glir.
- Sicrhau bod y Rheolwr Prosiect yn cydweithio â'ch rheolwr contractau.
- Ymrwmo i gyflawni gwaith yn ymwneud â'r contract yn brydlon ac yn unol â'r fanyleb y cytunwyd arni.
- Bodloni gofynion deddfwriaethol yn ôl eich cyfarwyddyd chi.
- Amlinellu cynlluniau wrth gefn i sicrhau parhad busnes pe bai adnoddau (gweithlu) neu systemau (peiriannau, argraffwyr digidol, trafndiaeth, llety ac ati) yn methu, ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau hyn.
- Darparu sicrwydd bod ganddynt ddigon o adnoddau i gyflawni'r contract.
- Eich bodloni chi y bydd yn eich indemnio chi ar gyfer unrhyw gostau, hawliadau, camau gweithredu, gofynion a gweithdrefnau a fydd yn deillio o unrhyw weithred, gwallau neu esgeulustod (bwriadol, diofal neu arall).
- Eich bodloni chi bod yswiriant digonol wedi'i drefnu ar gyfer risgiau yn ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus ac esgeulustod proffesiynol.
- Llunio dogfennau prawf/prawf ddarllen sy'n barod i'w hargraffu.
- Cytuno ar broses i gywiro gwallau.
- Caniatáu i chi a/neu eich cynrychiolydd penodedig gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar y cynnyrch unrhyw bryd y bydd hynny'n rhesymol heb roi rhybudd ymlaen llaw. Dylai hyn gynnwys archwilio unrhyw gofnodion yng nghyswllt y contract.

Dylai'r contract gynnwys y canlynol hefyd:

Amrywiad Contract

- Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei wneud yn ysgrifenedig, a rhaid i'r ddau barti gytuno arno.
- Dylid gallu addasu'r contract er mwyn ystyried gweithgarwch annisgwyl.

Aseinio ac is-gontractio

- Ni chaniateir aseiniu nac is-gontractio unrhyw waith, yn llawn neu'n rhannol, heb gael caniatâd ysgrifenedig gennych chi ymlaen llaw.
- Rhaid i chi gael mynediad llawn at unrhyw is-gontractwr/wyr.
- Gallwch ddyrannu a throsglwyddo hawliau/dyletswyddau i gorff os ceir methiant o ran y contract cyfan, neu ran ohono, er mwyn sicrhau eich bod yn gallu cyflawni'ch cyfrifoldebau cyfreithiol.

Talu

Rhaid i anfonebau'r cyflenwr gyd-fynd â'r tendr/dyfnbris.

- Rhaid i anfonebau gynnwys yr holl wybodaeth ategol yng nghyswllt y costau a godir.

- Rhaid i chi setlo o fewn cyfnod penodol, i'w gytuno arno gyda'ch cyflenwr.

Terfynu contract oherwydd tor-amod sylfaenol gan y cyflenwr

- Rhaid i'r contract ganiatáu i chi derfynu'r contract o dan yr amgylchiadau canlynol:
 - Gweithred ddiotal neu esgeulustod
 - Gweithred sy'n golygu na allwch chi gyflawni'ch dyletswyddau statudol
 - Cwmni wedi mynd yn fethdalwr neu wedi'i ddirwyn i ben, sy'n effeithio ar y contract

Rhyddid Gwybodaeth

- Er nad yw Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, er mwyn sicrhau tryloywder dylid ystyried cytuno i ddatgelu rhywfaint mewn achos o gais Rhyddid Gwybodaeth.

Diogelu data a storio'n ddiogel

- Chewch chi na'r cyflenwr ddim datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â thelerau'r contract.
- Rhaid i'r cyflenwr ac unrhyw isgcontractwyr sicrhau bod yr holl ddata cofrestru etholiadol a deunyddiau cysylltiedig yn cael ei ddifa ar bwynt penodol.

Ystyriaethau penodol pan fod y contract yn cynnwys bod y contractwr yn prosesu data personol

Yn ogystal â'r rhwymedigaethau uchod, mae gofynion penodol yn unol â deddfwriaeth diogelu data pan fyddwch yn defnyddio contractwr (h.y. 'proseswr') i brosesu data personol ar eich rhan. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, pan fyddwch yn anfon data'r gofrestr at gontractwr i argraffu ffurflenni neu i ddarparu cyfleuster ymateb awtomatig yn ystod cyfnod y canfas.

Pryd bynnag y byddwch yn defnyddio proseswr, bydd Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR) yn rhoi **gofyniad cyfreithiol** i ffurfioli'r berthynas waith mewn cytundeb ysgrifenedig sy'n gosod:

- pwnc, natur a diben y prosesu;
 - rhwymedigaethau a hawliau'r rheolwr data;
 - hyd y prosesu; a
 - y mathau o ddata personol a chategoriâu o bynciau data
- Yn ogystal mae GDPR yn gofyn bod y contract yn gosod rhwymedigaethau penodol ar y proseswr, yn cynnwys eu bod yn bodloni'r canlynol:
- cydymffurfio gyda'ch cyfarwyddiadau yn destun cyfrinachedd
 - cadw data personol yn ddiogel a rhoi gwybod i chi am unrhyw doriad
 - cynnal cofnodion ysgrifenedig o'r gweithgareddau prosesu y maent yn eu gwneud i chi
 - defnyddio is-broseswr gyda'ch caniatâd chi yn unig
 - bod yn destun archwiliadau ac arolygiadau a rhoi gwybodaeth sydd ei angen arnoch i sicrhau eich bod yn cydymffurfio gyda GDPR

- dileu neu ddychwelyd yr holl ddata personol atoch chi fel sy'n ofynnol ar ddiwedd y contract

Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol, chi yw'r rheolwr data ac sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod data personol yn cael ei brosesu yn unol â GDPR. Fodd bynnag, os bydd proseswr yn methu â bodloni ei rwymedigaethau, neu'n mynd yn erbyn eich cyfarwyddiadau chi, neu gall hefyd fod yn destun iawndal neu dalu dirwyon neu gosbau eraill neu gamau cywirol. Mae'r ICO wedi darparu canllawiau ['Contracts and liabilities between controllers and processors'](#) y dylech eu hystyried o ran eich contractau gyda proseswyr data.

Mae ein [hadnodd](#) ar Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Diogelu Data ar gael ar ein [gwefan](#).